



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5  
Legislation Committee No. 5**

**Dydd Iau, 29 Ebrill 2010  
Thursday, 29 April 2010**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon  
Introduction, Apologies and Substitutions
- 4 Y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)—Cyfnod 1:  
Sesiwn Dystiolaeth 6  
The Proposed Carers Strategies (Wales) Measure—Stage 1: Evidence Session 6
- 23 Cynnig Trefniadol  
Procedural Motion

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y pwyllgor.  
Yn ogystal, yn y golofn dde cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the committee meeting. In addition, in the right-hand column a translation of those speeches has been included.

**Aelodau'r pwyllgor yn bresennol**  
**Committee members in attendance**

Eleanor Burnham	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats
Andrew Davies	Llafur Labour
Mark Isherwood	Ceidwadwyr Cymreig (Cadeirydd y Pwyllgor) Welsh Conservatives (Committee Chair)
Darren Millar	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives
Leanne Wood	Plaid Cymru The Party of Wales

**Eraill yn bresennol**  
**Others in attendance**

Steve Milsom	Pennaeth y Gyfarwyddiaeth Polisi Pobl Hŷn a Gofal Hirdymor, Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cynulliad Cymru Head of Older People and Long Term Care Policy Directorate, Health and Social Services Directorate-General, Welsh Assembly Government
Gwenda Thomas	Aelod Cynulliad, Llafur (Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol) Assembly Member, Labour (The Deputy Minister for Social Services)
Huw Rowlands	Cyfreithiwr, Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru Lawyer, Legal Services Department, Welsh Assembly Government

**Swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bresennol**  
**National Assembly for Wales officials in attendance**

Enrico Carpanini	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Bethan Davies	Clerc Clerk
Leanne Hatcher	Dirprwy Glerc Deputy Clerk

*Dechreuodd y cyfarfod am 8.58 a.m.*  
*The meeting began at 8.58 a.m.*

**Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon**  
**Introduction, Apologies and Substitutions**

[1] **Mark Isherwood:** Bore da, croeso— **Mark Isherwood:** Bore da, croeso. Yr ydym  
good morning and welcome. We have wedi derbyn un ymddiheuriad heddiw, gan  
received one apology this morning, from Alun Davies. Hoffwn ddweud hefyd ar  
Alun Davies. I also wish to place on the gofnod, yn groes i'r datganiad ar y pryd, ein  
record that, contrary to the statement at the bod wedi derbyn ymddiheuriadau gan Alun  
time, we had received apologies from Alun Davies ar gyfer y cyfarfod ar 24 Mawrth.

Davies for the meeting on 24 March. I apologise that this was not properly noted and recorded at that time.

Ymddiheuraf na chafodd hyn ei nodi a'i gofnodi'n iawn ar y pryd.

[2] To start with the housekeeping, I remind Members and guests that, in the event of a fire alarm sounding, you should leave by the marked fire exits and follow instructions from the ushers and staff. Please switch off all mobile phones, pagers and BlackBerrys, because they interfere with the broadcasting equipment. The National Assembly of Wales operates through the English and Welsh languages. Headphones are provided through which instantaneous translation may be received on channel 1. The verbatim feed is on channel 0, and that may be used to amplify sound by those who are hard of hearing. Please do not touch any of the buttons on the microphones as to do so could disable the system, and please ensure that the red light is showing before speaking.

I ddechrau gyda'r cadw tŷ, yr wyf yn atgoffa Aelodau ac ymwelwyr y dylech adael drwy'r allanfeydd tân sydd wedi'u nodi a dilyn cyfarwyddiadau tywyswyr a staff os bydd y larwm tân yn canu. Cofiwch ddiffodd unrhyw ffonau, galwyr a BlackBerrys, gan eu bod yn amharu ar y cyfarpar darlledu. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithredu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Darperir clustffonau er mwyn gallu derbyn cyfieithiad ar y pryd ar sianel 1. Mae'r cyfieithu gair-am-air ar sianel 0, a gall pobl trwm eu clyw ddefnyddio hwnnw i gynyddu'r sain. A fyddech cystal â pheidio â chyffwrdd unrhyw fotymau ar y microffonau gan y gallai gwneud hynny analluogi'r system, a gofawch bod y golau coch ymlaen cyn siarad.

8.59 a.m.

**Y Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru)—  
Cyfnod 1: Sesiwn Dystiolaeth 6  
The Proposed Carers Strategies (Wales) Measure—Stage 1: Evidence Session 6**

[3] **Mark Isherwood:** The purpose of today's meeting is to take further oral evidence from the Deputy Minister for Social Services, Gwenda Thomas, in connection with the Proposed Carers Strategies (Wales) Measure. Today's meeting is our final evidence session in order to inform our work.

**Mark Isherwood:** Diben cyfarfod heddiw yw cymryd tystiolaeth lafar bellach gan y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas, mewn cysylltiad â'r Mesur Arfaethedig ynghylch Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru). Cyfarfod heddiw yw ein sesiwn dystiolaeth olaf er mwyn llywio ein gwaith.

[4] I welcome Gwenda Thomas, Deputy Minister for Social Services, who is responsible for introducing the proposed Measure, and her officials. Please introduce yourselves for the record.

Yr wyf yn croesawu Gwenda Thomas, y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol, sy'n gyfrifol am gyflwyno'r Mesur arfaethedig, a'i swyddogion. A fyddech cystal â chyflwyno'ch hunain ar gyfer y cofnod.

[5] **The Deputy Minister for Social Services (Gwenda Thomas):** Thank you, Mark. First, I apologise to the committee for not being able to come last week. It was beyond my control, and I am grateful to the committee for the opportunity to come today. Here are Steve Milsom and Huw Rowlands. Will you say what your position is, Steve?

**Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwenda Thomas):** Diolch, Mark. Yn gyntaf, ymddiheuraf i'r pwyllgor am fethu dod yr wythnos ddiwethaf. Yr oedd y tu hwnt i'm rheolaeth, ac yr wyf yn ddiolchgar i'r pwyllgor am y cyfle i ddod heddiw. Dyma Steve Milsom a Huw Rowlands. A fyddech cystal â dweud beth yw eich swydd, Steve?

[6] **Mr Milsom:** Good morning. I am Steve Milsom, head of the older people and long-term care policy directorate in the Health and Social Services Directorate-General.

**Mr Milsom:** Bore da, fi yw Steve Milsom, pennaeth y gyfarwyddiaeth polisi pobl hŷn a gofal hirdymor yn y Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

[7] **Huw Rowlands:** I am Huw Rowlands, from the Legal Services department.

**Huw Rowlands:** Fi yw Huw Rowlands, o'r adran Gwasanaethau Cyfreithiol.

[8] **Mark Isherwood:** Thank you. We appreciate that the Assembly does not yet have delegated powers over volcanoes.

**Mark Isherwood:** Diolch. Yr ydym yn gwerthfawrogi nad oes gan y Cynulliad bwerau dirprwyedig dros losgfynddoedd eto.

[9] You state in your answer to question 3 in your letter to us—for which we thank you—regarding consolidating carers legislation, that consolidation would have been very time consuming. Evidence presented to the committee suggested that the current raft of legislation is confusing to carers and to the cared-for. Would it have been possible or feasible to have spent more time consolidating the legislation to produce legislation that they would have found more user-friendly?

Yr ydych yn datgan yn eich ateb i gwestiwn 3 yn eich llythyr atom—a diolchwn i chi amdano—o ran atgyfnerthu deddfwriaeth gofalwyr, y byddai atgyfnerthu wedi cymryd llawer o amser. Awgrymodd tystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor fod y gyfres gyfredol o ddeddfwriaeth yn ddryslyd i ofalwyr ac i bobl sy'n derbyn gofal. Oni fyddai wedi bod yn bosibl neu'n ymarferol treulio mwy o amser yn atgyfnerthu'r ddeddfwriaeth i lunio deddfwriaeth a fyddai wedi bod yn haws i bobl ei defnyddio?

[10] **Gwenda Thomas:** Thank you, Mark. I appreciate the concerns raised by the stakeholders in relation to the current legislative framework. However, as I have advised the committee, the Law Commission has already recognised these concerns in bringing forward proposals for a substantial review and consolidation of adult social care law in England and Wales. The Law Commission is currently consulting on its review, and in relation to existing carers legislation, it says:

**Gwenda Thomas:** Diolch, Mark. Yr wyf yn gwerthfawrogi'r pryderon a fynegwyd gan y rhanddeiliaid mewn perthynas â'r fframwaith deddfwriaethol cyfredol. Fodd bynnag, fel y dywedais wrth y pwyllgor, mae Comisiwn y Gyfraith eisoes wedi cydnabod y pryderon hyn drwy gyflwyno cynigion am adolygiad cynhwysfawr ac atgyfnerthu cyfraith gofal cymdeithasol i oedolion yng Nghymru a Lloegr. Mae Comisiwn y Gyfraith yn ymgynghori ynghylch ei adolygiad, ac mewn perthynas â deddfwriaeth gofalwyr gyfredol, mae'n dweud:

[11] 'The current legal framework for carers' assessments is fragmented, multi-layered and internally inconsistent. We propose that our statute should set out a single duty to assess a carer, consolidating the requirements of existing legislation.'

Mae'r fframwaith cyfreithiol bresennol ar gyfer asesiadau gofalwyr yn dameidiog, yn cynnwys sawl haen ac yn anghyson yn fewnol. Cynigiwn y dylai ein statud osod allan dyletswydd unigol i asesu gofalwr, gan gyfuno gofynion y ddeddfwriaeth bresennol.

[12] Clearly, it would have been wasteful to use our resources to duplicate the Law Commission's work by using the proposed Measure to consolidate legislation. Instead, we have focused our efforts on addressing

Yn amlwg, byddai wedi bod yn wastraffus defnyddio ein hadnoddau i ddyblygu gwaith Comisiwn y Gyfraith drwy ddefnyddio'r Mesur arfaethedig i atgyfnerthu deddfwriaeth. Yn hytrach, yr ydym wedi

some of the high-priority concerns that carers have.

canolbwyntio ein hymdrechion ar fynd i'r afael â rhai o'r pryderon blaenoriaeth uchel sydd gan ofalwyr.

[13] **Mark Isherwood:** Thank you. Eleanor, would you take this on?

Diolch. Eleanor, a hoffech barhau gyda hyn?

[14] **Eleanor Burnham:** Diolch am y papur; yr oedd yn ddiddorol fel arfer. Beth allwch ei ddweud wrthym am gyfraniad eich swyddogion at waith Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith gofal cymdeithasol o ran deddfwriaeth sy'n ymwneud â gofalwyr?

**Eleanor Burnham:** Thank you for the paper; it was interesting, as usual. What can you tell us about the contribution of your officials in the work of the Law Commission on social care law with regard to carers legislation?

[15] **Gwenda Thomas:** Sori, Eleanor—

**Gwenda Thomas:** Sorry, Eleanor—

[16] **Eleanor Burnham:** Peidiwch â phoeni. A ydych am imi ei ailadrodd?

**Eleanor Burnham:** Do not worry. Shall I repeat the question?

[17] **Gwenda Thomas:** Os gwelwch yn dda.

**Gwenda Thomas:** Yes, please.

[18] **Eleanor Burnham:** Beth arall allwch ei ddweud wrthym am gyfraniad eich swyddogion at waith Comisiwn y Gyfraith ar gyfraith gofal cymdeithasol o ran deddfwriaeth sy'n ymwneud â gofalwyr?

**Eleanor Burnham:** What more can you tell us about the involvement of your officials in the work of the Law Commission on social care law with regard to carers legislation?

[19] **Gwenda Thomas:** Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda'r comisiwn ers y dechrau. Maent yn siarad â mi am waith y comisiwn a gwneuthum argymhellion o ran safbwynt Llywodraeth y Cynulliad. Mae swyddogion wedi bod yn siarad â'r comisiwn ynghylch yr LCO ers y dechrau hefyd i sicrhau bod y comisiwn yn hollol ymwybodol o waith y Cynulliad a datganoli. I ganolbwyntio hyd yn oed yn fwy ar hynny, maent yn parhau i weithio gyda'r comisiwn i sicrhau ei bod yn ymwybodol bod gan y Cynulliad yr hawl i ddeddfu ar ran pobl Cymru ac o'r hyn y mae'n ei gwneud yn y maes hwn. Mae'r comisiwn wedi cael gwybodaeth lawn am yr LCO a'r Mesur arfaethedig hwn.

**Gwenda Thomas:** Officials have worked with the commission since the beginning. They talk to me about the work of the commission and I made recommendations in terms of the Assembly Government's position. Officials have also been talking to the commission about the LCO since the beginning to ensure that the commission is completely aware of the work of the Assembly and of devolution. To focus even more on that, they are continuing to work with the commission to ensure that it is aware that the Assembly has the right to legislate on behalf of the people of Wales and of what it is doing in this area. The commission has had full information from us about the LCO and this proposed Measure.

[20] **Eleanor Burnham:** A ydych yn credu, felly, bod yr hyn yr ydych yn ei wneud yn briodol ac amserol, ag ystyried yr hyn y mae'r comisiwn yn ei wneud ar wahân?

**Eleanor Burnham:** Do you think, therefore, that what you are doing is appropriate and timely, given what the commission is doing separately?

[21] **Gwenda Thomas:** Ydwyf. Mae datganoli wedi digwydd a bydd y Mesur arfaethedig hwn yn mynd â Chymru ar hyd ffordd sy'n atebol i anghenion pobl Cymru.

**Gwenda Thomas:** Yes. Devolution has happened and this proposed Measure will take Wales down the road that meets the needs of the people of Wales. I am confident

Yr wyf yn hyderus y bydd y comisiwn yn llawn ymwybodol ac yn ymateb i'r ddeddfwriaeth yr ydym yn ei chreu yn y Cynulliad yn y maes hwn, yn enwedig yr LCO a'r Mesur arfaethedig hwn, ac ym meysydd eraill.

[22] **Eleanor Burnham:** Felly, yn y pen draw, a ydych yn credu bod y Mesur arfaethedig hwn yn briodol ac amserol, ei fod ar wahân i waith y comisiwn, ac y bydd yn well i ofalwyr?

[23] **Gwenda Thomas:** Ydwyf. Bydd yn rhaid cael strategaeth gofalwyr. Mae hynny'n mynd law yn llaw â'r hyn y mae gofalwyr wedi dweud y mae arnynt ei angen. Nid yw hynny'n wir o dan y ddeddfwriaeth bresennol. Mae'n bwysig ein bod yn cymryd y cam pellach hwn i greu gofyniad statudol i ddatblygu strategaethau i ddelio ag anghenion gofalwyr, yn ôl yr hyn y mae gofalwyr wedi dweud wrthym.

[24] **Darren Millar:** Thank you for your paper, Minister. When we discussed the proposed Measure with some of the local health boards, they suggested that there needs to be a set of joint monitoring arrangements because, of course, if there is joint responsibility to deliver the strategies then, quite clearly, there will be shared responsibility to implement them. How will you ensure that that does not overburden local authorities and the NHS, given the huge range of matters that they are already reporting to the National Assembly and the Welsh Government on a regular basis?

9.10 a.m.

[25] **Gwenda Thomas:** I think that that is a prudent suggestion. I accept that, and we will be taking that on board in developing the regulations and guidance under the eventual Measure. I shall, of course, welcome detailed information from the NHS, through the stakeholder group to take that forward.

[26] **Darren Millar:** Thank you for that, Minister. In terms of the development of the strategies, you talk in your paper about the LHBs taking the lead—in north Wales, for example, it would be the Betsi Cadwaladr University Health Board—with lower-level

that the commission will be completely aware of and will respond to the legislation that we make in the Assembly in this area, particularly with regard to the LCO and this proposed Measure, as well as in other areas.

**Eleanor Burnham:** So, ultimately, do you think that this proposed Measure is appropriate and timely, separate from the work of the commission, and that it will be better for carers?

**Gwenda Thomas:** Yes. There will have to be carers strategies. That goes hand in hand with what carers have told us they need. That is not the case under the current legislation. It is important that we take this further step to create a statutory requirement to develop strategies to deal with carers needs, according to what carers have told us.

**Darren Millar:** Diolch am eich papur, Weinidog. Pan i ni drafod y Mesur arfaethedig gyda rhai o'r byrddau iechyd lleol, awgrymwyd ganddynt fod angen cyfres o drefniadau monitro ar y cyd oherwydd, yn amlwg, os oes cyfrifoldeb ar y cyd i gyflawni'r strategaethau yna, yn eithaf amlwg, bydd y cyfrifoldeb i'w gweithredu yn cael ei rannu. Sut byddwch yn sicrhau nad yw hynny'n rhoi gormod o faich ar awdurdodau lleol a'r GIG, o ystyried yr ystod enfawr o faterion y maent eisoes yn adrodd arnynt yn rheolaidd i'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth y Cynulliad?

**Gwenda Thomas:** Credaf fod hynny'n awgrym doeth. Derbyniaf hynny, a byddwn yn ystyried hynny wrth ddatblygu'r rheoliadau a'r canllawiau o dan y Mesur a fydd gennym. Byddaf, yn amlwg, yn croesawu gwybodaeth fanwl gan y GIG, drwy'r grŵp rhanddeiliaid i ddatblygu hynny.

**Darren Millar:** Diolch am hynny, Weinidog. O ran datblygu'r strategaethau, yr ydych yn siarad yn eich papur am y BILlau yn arwain y ffordd—yng ngogledd Cymru, er enghraifft, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladar a fyddai'n gwneud hyn—gyda haenau lefel is

strands being brought in from each of the local authorities. Do you think that that will deliver the local flavour that we need in the strategies, or do you think that there is a danger of it being a cut-and-paste exercise by local authorities in each of those health board areas?

[27] **Gwenda Thomas:** One of the strategies' purposes will be to ensure that they respond to local needs. I do not see anything in the proposals that will prevent that. We are not being prescriptive at the moment, of course. I expect the NHS to lead the strategies—perhaps that will happen in all the areas, and perhaps it will not. What will be important is that the strategies are developed in every area so that they can best respond to local needs, because if they do not deliver locally, there is no strategy. I do not see, quite sincerely, that there is anything in the proposed Measure that will prevent that happening.

[28] **Andrew Davies:** Minister, may I just follow up some of the issues that Darren raised about governance? In my experience, the Assembly Government has many strategies, but there is often a big discrepancy between the strategy and the delivery and outcomes. How will you, as a Minister, and how will Government assess performance in the implementation of strategy? What performance indicators are being looked at, and what plans do you have for measuring performance? As we know, in social services, my own local authority is a failing authority, so how do we ensure not only that the strategy is in place, but also that the performance is effective and universally high?

[29] **Gwenda Thomas:** We will develop that as we develop the regulations, in consultation with stakeholders. As for performance indicators, we will develop that thinking as well. The regulations will cover the implementation and the monitoring of the strategy, and that is made clear in the papers that you have had. In order to be sure that I am covering the legal aspect, I shall ask

yn cael eu tynnu i mewn o bob un o'r awdurdodau lleol. A ydych yn meddwl y bydd hynny'n ychwanegu'r elfen leol sydd ei hangen arnom yn y strategaethau, neu a ydych yn credu fod perygl iddo fod yn ymarfer torri a gludo gan awdurdodau lleol ym mhob un o'r ardaloedd byrddau iechyd hynny?

**Gwenda Thomas:** Un o ddibenion y strategaethau fydd sicrhau eu bod yn ymateb i anghenion lleol. Ni welaf unrhyw beth yn y cynigion a fydd yn atal hynny. Nid ydym yn bod yn rhagnodol ar hyn o bryd, yn amlwg. Yr wyf yn disgwyl i'r GIG arwain y strategaethau—efallai y bydd hynny'n digwydd ym mhob ardal, ac efallai na fydd yn digwydd. Yr hyn a fydd yn bwysig yw bod y strategaethau'n cael eu datblygu ym mhob ardal fel eu bod yn gallu ymateb yn y modd gorau i anghenion lleol, oherwydd os nad ydynt yn cyflawni'n lleol, nid oes strategaeth. Nid wyf yn gweld, a hynny'n ddidwyll, bod unrhyw beth yn y Mesur arfaethedig a fydd yn atal hynny rhag digwydd.

**Andrew Davies:** Weinidog, a gaf fi fynd ar drywydd rhai o'r materion a godwyd gan Darren am lywodraethu? O'm profiad i, mae gan Lywodraeth y Cynulliad sawl strategaeth, ond yn aml mae anghysondeb mawr rhwng y strategaeth a'r ddarpariaeth a chanlyniadau. Sut byddwch chi, fel Gweinidog, a sut bydd y Llywodraeth yn asesu perfformiad wrth weithredu strategaeth? Ar ba ddangosyddion perfformiad yr ydych yn edrych arnynt, a pha gynlluniau sydd gennych ar gyfer mesur perfformiad? Fel y gwyddom, ym maes gwasanaethau cymdeithasol, mae fy awdurdod lleol fy hun yn awdurdod sy'n methu, felly sut ydym yn sicrhau nid yn unig fod y strategaeth ar waith, ond bod y perfformiad yn effeithiol ac yn gyffredinol dda hefyd?

**Gwenda Thomas:** Byddwn yn datblygu hynny wrth i ni ddatblygu'r rheoliadau, gan ymgynghori â rhanddeiliaid. O ran dangosyddion perfformiad, byddwn yn datblygu'r meddylfryd hwnnw hefyd. Bydd y rheoliadau yn cwmpasu gweithredu a monitro'r strategaeth, ac mae hynny'n cael ei nodi'n glir yn y papurau yr ydych wedi'u cael. Er mwyn sicrhau fy mod yn rhoi sylw



Steve or Huw whether they want to add to that answer.

i'r agwedd gyfreithiol, yr wyf am ofyn i Steve neu Huw a ydynt am ychwanegu at yr ateb hwnnw.

[30] **Steve Milsom:** Thank you, Minister. The point to add to that is that the Care and Social Services Inspectorate Wales and the Healthcare Inspectorate Wales will take carer strategies within their ambit. We will also need to look at the performance management regimes, particularly those of the NHS, to see how these new arrangements are monitored, because it will be essential to scrutinise them, particularly in the early years.

**Steve Milsom:** Diolch, Weinidog. Y pwynt i'w ychwanegu at hynny yw y bydd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cymryd cyfrifoldeb am strategaethau gofalwyr. Bydd hefyd angen i ni edrych ar y trefniadau rheoli perfformiad, yn enwedig rhai'r GIG, i weld sut mae'r trefniadau newydd hyn yn cael eu monitro, oherwydd bydd yn hollbwysig craffu arnynt, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar.

[31] **Eleanor Burnham:** Yr ydym wedi dechrau siarad am yr hyn yr oeddwn am ofyn yn ei gylch, ond yr wyf eisiau eglurhad ynglŷn ag eich ateb i gwestiwn 8 am ddynodi awdurdodau iechyd i arwain ar gynhyrchu y strategaethau gofalwyr hyn. Mae'n bwysig cydnabod bod Gweinidogion yn gallu penodi un o'r awdurdodau iechyd yn awdurdod sy'n arwain ar gyfer pob strategaeth. A ydych yn rhagweld hyn yn digwydd fesul achos, neu a fyddai'r dull hwn yn rhy feichus.

**Eleanor Burnham:** We have already started talking about what I was going to ask, but I would like some clarity concerning your response to question 8 on the designation of health authorities to lead in the creating of carer strategies. It is important to recognise that Welsh Ministers may designate one of the health authorities as the lead authority for each strategy. Would you envisage this being decided case by case, or would this approach be too cumbersome?

[32] **Gwenda Thomas:** Nid ydym yn dweud bod yn rhaid gwneud y peth yn y modd a'r modd. Byddwn yn barod i wrando ac i edrych ar y strategaeth ddrafft a fydd yn dod i mewn o bob ardal. Ni fydd Gweinidog unigol yn y Llywodraeth yn dweud beth y mae'n rhaid i'r strategaeth ei gynnwys; dweud ydym fod yn rhaid i'r strategaethau fynd law yn llaw â'r Mesur arfaethedig. Mae hynny'n bwynt cryf, ac nid wyf yn gweld y bydd yr un partner yn y strategaeth yn llai o bartner nag un arall. Bydd cyrff sy'n arwain, a hwy fydd yn derbyn y grantiau oddi wrth y Llywodraeth a'u dosbarthu yn ôl gofynion y strategaeth, ond ni fydd yr un partner yn llai pwysig na phartner arall.

**Gwenda Thomas:** We are not saying, of course, that we have to do something in one way or another. We would be willing to listen and to look at the draft strategy that will come in from each area. No one Minister will say what the strategy has to contain. What we are saying is that the strategies will have to go hand-in-hand with the proposed Measure. That is a firm point, and I do not see that any partner in the strategy will be any less of a partner than any other. There will be lead bodies, and they will receive grants from the Government and distribute them according to the needs of the strategy, but no one partner will be less important than another.

[33] **Leanne Wood:** Thank you, Deputy Minister. I want to look at the issue of young carers. When you came before the committee previously, you said that you saw no need for the proposed Measure to be redrafted to take account of young carers, and that young carers are as much a part of the proposed Measure as any other carers. There are many similarities between carers legislation in Scotland and this proposed Measure, but the

**Leanne Wood:** Diolch, Ddirprwy Weinidog. Yr wyf am edrych ar fater gofalwyr ifanc. Pan ddaethoch gerbron y pwyllgor y tro diwethaf, dywedasoch nad oeddech yn gweld bod angen ailddrafftio'r Mesur arfaethedig i ystyried gofalwyr ifanc, a bod gofalwyr ifanc yn gymaint rhan o'r Mesur arfaethedig ag unrhyw ofalwyr eraill. Mae llawer yn debyg rhwng deddfwriaeth gofalwyr yn yr Alban a'r Mesur arfaethedig hwn, ond mae

Scottish legislation goes further by defining who young carers are—there is a definition there. Did you consider including such a definition of young carers when drafting this legislation?

[34] **Gwenda Thomas:** It was considered, and I believe that, in the way that the proposed Measure is drafted, there is no question at all but that it includes all carers of all ages. There is no age reference to carers. There is a reference to the impact of caring on carers, which is the fundamental issue that we are trying to address here in Wales. I do not see any difference, in fact, between the wording that we use and the wording used in the Scottish legislation.

[35] **Leanne Wood:** You have said that you considered providing a definition; will you tell us why you rejected providing a definition?

[36] **Gwenda Thomas:** Because I believe that young carers have the same status as any other carer and the same rights under this proposed Measure as any other carer. It is important to recognise young carers and their importance, just as we consider adult carers, and by embracing all carers of all ages within this proposed Measure, we are doing that.

[37] I have no worries about this proposed Measure not embracing young carers or giving them the same importance and recognition as other carers.

[38] **Leanne Wood:** In evidence that we have received from witnesses, concerns have been raised that some young carers could be missed because of the reliance on social services departments to find young carers. Many young carers have no contact with social services departments. Do you have a response to that?

[39] **Gwenda Thomas:** I recognise that and I respect the fact that some young carers do not wish to have contact with social services. It is important, which is why I want a separate chapter within each strategy to

deddfwriaeth yr Alban yn mynd ymhellach drwy ddiffinio pwy yw gofalwyr ifanc—mae diffiniad yno. A wnaethoch ystyried cynnwys diffiniad o'r fath o ofalwyr ifanc wrth ddrafftio'r deddfwriaeth hon?

**Gwenda Thomas:** Cafodd ei ystyried, a chredaf, yn y ffordd y mae'r Mesur arfaethedig wedi'i ddrafftio, nid oes amheuaeth o gwbl ond ei fod yn cynnwys pob gofalwr o bob oedran. Ni chyfeirir at oedran gofalwyr. Cyfeirir at effaith gofalu ar ofalwyr, sef y mater sylfaenol yr ydym yn ceisio mynd i'r afael ag ef yma yng Nghymru. Ni welaf unrhyw wahaniaeth, yn wir, rhwng y geiriad a ddefnyddiwn a'r geiriad a ddefnyddiwyd yn neddfwriaeth yr Alban.

**Leanne Wood:** Yr ydych wedi dweud eich bod wedi ystyried darparu diffiniad; a fydddech cystal â dweud wrthym pam i chi wrthod darparu diffiniad?

**Gwenda Thomas:** Oherwydd credaf fod gan ofalwyr ifanc yr un statws ag unrhyw ofalwr arall a'r un hawliau o dan y Mesur arfaethedig hwn ag unrhyw ofalwr arall. Mae'n bwysig cydnabod gofalwyr ifanc a'u pwysigrwydd, yn union fel yr ydym yn ystyried oedolion sy'n ofalwyr, a thrwy gynnwys pob gofalwr o bob oedran yn y Mesur arfaethedig hwn, yr ydym yn gwneud hynny.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon na fydd y Mesur arfaethedig hwn yn cynnwys gofalwyr ifanc neu'n rhoi'r un pwysigrwydd a chydabyddiaeth iddynt â gofalwyr eraill.

**Leanne Wood:** Mewn tystiolaeth yr ydym wedi'i derbyn gan dystion, mae pryderon wedi'u mynegi y gellid colli rhai gofalwyr ifanc oherwydd y ddibyniaeth ar adrannau gwasanaethau cymdeithasol i ganfod gofalwyr ifanc. Nid oes gan lawer o ofalwyr ifanc unrhyw gysylltiad ag adrannau gwasanaethau cymdeithasol. A oes gennych ymateb i hynny?

**Gwenda Thomas:** Yr wyf yn cydnabod hynny ac yr wyf yn parhau'r ffaith nad yw rhai gofalwyr ifanc am ddod i gysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n bwysig, a dyna pam fy mod am gael pennod ar wahân

deal specifically with young carers. That is why I have also decided to put in extra resources to deal specifically with young carers and to provide that chapter within each strategy. Bear with me a moment, and I can give you the exact figures. A sum of £80,000 will be allocated in the first year, £150,000 in the second year and £200,000 in the third year specifically to develop that chapter on young carers. In addition, young carers can be embraced by other legislation, such as that under our National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Social Welfare and Other Fields) Order 2008 on vulnerable children, the Children and Young Persons Act 2008, and any other measures or any extension introduced during the roll-out of this proposed Measure. However, I have no doubt at all that this proposed Measure embraces young carers, and we expect there to be a focus on them in the extra chapter that will be included in those strategies.

[40] **Leanne Wood:** I am sure that many of the organisations that have given evidence to this committee will welcome what you have just said—the additional funding and a specific chapter within the strategies—but what is the statutory basis to that chapter within the strategy? What happens if a local authority or another lead body does not implement that part of it?

[41] **Gwenda Thomas:** My view—and I ask Huw to confirm this—is that the strategies will be based in law and, if a strategy does not comply with the requirements of the Measure as passed, then an authority will be acting ultra vires.

[42] **Mr Rowlands:** Yes, we are talking about section 5 of the proposed Measure, under which we can make further provisions about the strategies by regulation. Those regulations, when made, would be subject to the same sanctions and provisions as everything else under the Measure.

[43] **Leanne Wood:** Thank you very much for those answers.

ym mhob strategaeth i ymdrin yn benodol â gofalwyr ifanc. Dyna pam fy mod hefyd wedi penderfynu rhoi adnoddau ychwanegol i ymdrin yn benodol â gofalwyr ifanc ac i ddarparu'r bennod honno ym mhob strategaeth. Rhowch eiliad i mi, a gallaf roi'r union ffigurau i chi. Bydd swm o £80,000 yn cael ei ddyrannu yn y flwyddyn gyntaf, £150,000 yn yr ail flwyddyn a £200,000 yn y drydedd flwyddyn yn benodol ar gyfer datblygu'r bennod honno ar ofalwyr ifanc. Hefyd, gellir cynnwys gofalwyr ifanc mewn deddfwriaethau eraill, fel y deddfwriaethau o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Lles Cymdeithasol a Meysydd Eraill) 2008 ar blant agored i niwed, Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008, ac unrhyw fesurau eraill neu unrhyw estyniad a gyflwynwyd wrth gyflwyno'r Mesur arfaethedig hwn yn raddol. Fodd bynnag, nid oes gennyf amheuaeth bod y Mesur arfaethedig hwn yn cynnwys gofalwyr ifanc, ac yr ydym yn disgwyl ffocws arnynt yn y bennod ychwanegol a fydd yn cael ei chynnwys yn y strategaethau hynny.

**Leanne Wood:** Yr wyf yn sicr y bydd llawer o'r sefydliadau sydd wedi rhoi tystiolaeth i'r pwyllgor hwn yn croesawu'r hyn yr ydych yn ei ddweud—y cyllid ychwanegol a phennod benodol yn y strategaethau—ond beth yw'r sail statudol i'r bennod honno yn y strategaeth? Beth fydd yn digwydd os na fydd awdurdod lleol neu gorff arweiniol arall yn gweithredu'r rhan honno ohoni?

**Gwenda Thomas:** Yn fy marn i—ac yr wyf yn gofyn i Huw gadarnhau hyn—bydd y strategaethau wedi'u seilio ar y gyfraith ac, os nad yw strategaeth yn cydymffurfio â gofynion y Mesur fel y bydd wedi ei basio, yna bydd awdurdod yn torri'r gyfraith.

**Mr Rowlands:** Ydym, yr ydym yn siarad am adran 5 y Mesur arfaethedig, sy'n caniatáu i ni wneud darpariaethau pellach am y strategaethau drwy reoleiddio. Byddai'r rheoliadau hynny, ar ôl eu gwneud, yn amodol ar yr un sancsiynau a darpariaethau â phopeth arall o dan y Mesur.

**Leanne Wood:** Diolch yn fawr iawn am yr atebion hynny.

[44] **Darren Millar:** Very often, a young carer will be one of many carers within a family and will not be the primary carer but perhaps the secondary carer. The proposed Measure seems to me to be focused on the needs of primary, rather than secondary, carers. How will you get the balance right in the development of the strategies? How will you make sure that the needs of secondary carers are also looked after? When you have carers with sometimes very conflicting needs, how will those be addressed? For example, a carer may disagree on how care ought to be provided to a family member.

**Darren Millar:** Yn aml iawn, bydd gofalwr ifanc yn un o blith sawl gofalwr mewn teulu ac nid ef neu hi fydd y prif ofalwr ond efallai yr ail ofalwr. Ymddengys i mi fod y Mesur arfaethedig yn canolbwyntio ar anghenion y prif ofalwyr, yn hytrach na'r ail ofalwyr. Sut byddwch yn sicrhau'r cydbwysedd cywir wrth ddatblygu'r strategaethau? Sut byddwch yn sicrhau eich bod yn gofalu am anghenion yr ail ofalwyr hefyd? Pan fydd gennych ofalwyr sydd ag anghenion sy'n gwrthdaro, sut byddwch yn mynd i'r afael â'r rheini? Er enghraifft, efallai y bydd gofalwr yn anghytuno ynglŷn â sut y dylid darparu gofal ar gyfer aelod teulu.

[45] **Gwenda Thomas:** The wording that we use in the proposed Measure for the definition of a carer is that care be provided 'regularly and substantially'. That can happen with more than one carer—in a family unit, for example. We are not being as specific as the Carers (Equal Opportunities) Act 2004, for example, which details 35 hours of care a week, or the benefits agency's rules on the carers' allowance, which also refers to 35 hours a week. We have some figures, through the census and through the Wales health survey, to suggest that the number of carers in Wales who provide more than 50 hours of care a week is quite substantial.

**Gwenda Thomas:** Y geiriad a ddefnyddiwn yn y Mesur arfaethedig wrth ddiffinio gofalwr yw y dylai ddarparu gofal yn 'rheolaidd ac yn sylweddol'. Gall hynny ddigwydd gyda mwy nag un gofalwr—mewn uned deuluol, er enghraifft. Nid ydym yn bod mor benodol â Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004, er enghraifft, sy'n nodi 35 awr o ofal yr wythnos, neu reolau'r asiantaeth fudd-daliadau ar lwfans gofalwyr, sydd hefyd yn cyfeirio at 35 awr yr wythnos. Mae gennym rai ffigurau, drwy'r cyfrifiad a thrwy arolwg iechyd Cymru, sy'n awgrymu bod nifer y gofalwyr yng Nghymru sy'n darparu mwy na 50 awr o ofal yr wythnos yn eithaf sylweddol.

9.20 a.m.

[46] The real thing that we need to keep in mind—and I am very keen to make this point—is that we want the strategy to deal with the impact of caring on carers. With young carers, referring back to that chapter, we will want to make sure that the burden of care on young carers is not inappropriate to their age or their physical ability to do some of the things that care demands. I do not think that anyone is excluded, even if there is more than one carer in a unit.

Y peth pwysig sy'n rhaid i ni ei gofio—ac yr wyf yn awyddus iawn i wneud y pwynt hwn—yw ein bod am i'r strategaeth ymdrin ag effaith gofalu ar ofalwyr. O ran gofalwyr ifanc, gan gyfeirio'n ôl at y bennod honno, byddwn am sicrhau nad yw baich gofal ar ofalwyr ifanc yn amhriodol i'w hoedran neu eu gallu corfforol i wneud rhai o'r pethau sydd eu hangen wrth ofalu. Ni chredaf fod unrhyw un wedi'i eithrio, hyd yn oed os oes mwy nag un gofalwr mewn uned.

[47] **Mark Isherwood:** May I ask a brief supplementary question? We heard in evidence from Barnardo's and then from the young carers who attended with Barnardo's in a subsequent session that many young carers, including those who spoke to us, do not define themselves as vulnerable. They may not be on the radar, or, if they are, it is

**Mark Isherwood:** A gaf fi ofyn cwestiwn ychwanegol cryno? Clywsom mewn tystiolaeth gan Barnardo's ac yna gan y gofalwyr ifanc a fynychodd gyda Barnardo's mewn sesiwn ddilynol nad yw llawer o ofalwyr ifanc, gan gynnwys y rhai a siaradodd â ni, yn diffinio eu hunain fel pobl agored i niwed. Efallai nad ydym yn

perhaps not for the reasons that they would wish. How will your proposals for this additional chapter address that large group of people who do not self-identify themselves as being vulnerable?

[48] **Gwenda Thomas:** Raising public awareness of the strategies will be a major part of this. I hope that the strategies will be well sold, if you like, within the areas that they cover. That will be important. However, there are various ways of identifying carers, which is why we are leaning towards the NHS being the lead authority. It is well known that, across the services, more carers come into contact with the NHS than with other services, but we also recognise that the experience to date and the maturity in developing information strategies are found more in social services departments. That is why we are bringing together health and social services in the first instance to roll out this important work. To drive this forward, I think that the proposed Measure covers the eventualities that you mention.

[49] **Leanne Wood:** Thank you, Deputy Minister. You mentioned the importance of the NHS in all this, and you have said that it is your intention, initially, to include services directly provided by the NHS, with commissioned services to follow later. Will you explain what those commissioned services will be, please?

[50] **Gwenda Thomas:** May I apologise for that? Had I said 'contracted services', it might have been better understood, and I apologise for that. Contracted services would embrace GP surgeries, for example, and pharmacies. I hope that that helps to alleviate your concerns.

[51] **Leanne Wood:** Just for us to be clear, services provided by GPs will be included at a later stage, and not initially. Is

ymwybodol ohonynt, neu os ydym, efallai nad ydym yn ymwybodol ohonynt am y rhesymau y byddent am i ni fod yn ymwybodol ohonynt. Sut bydd eich cynigion ar gyfer y bennod ychwanegol hon yn mynd i'r afael â'r grŵp mawr o bobl hynny nad ydynt yn ystyried eu hunain yn bobl sy'n agored i niwed?

**Gwenda Thomas:** Bydd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r strategaethau yn rhan fawr o hyn. Yr wyf yn gobeithio y bydd y strategaethau'n cael eu gwerthu'n dda, os hoffwch chi, yn y meysydd hynny y maent yn eu cwmpasu. Bydd hynny'n bwysig. Fodd bynnag, mae ffyrdd amrywiol o nodi gofalwyr, a dyna pam ein bod yn dueddol o feddwl mai'r GIG ddylai fod yr awdurdod arweiniol. Mae'n wybyddus, ar draws y gwasanaethau, bod mwy o ofalwyr yn dod i gysylltiad â'r GIG o gymharu â gwasanaethau eraill, ond yr ydym hefyd yn cydnabod bod y profiad hyd yma a'r aeddfedrwydd wrth ddatblygu strategaethau gwybodaeth yn fwy amlwg mewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Dyna pam ein bod yn dwyn ynghyd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn y lle cyntaf i gyflwyno'r gwaith pwysig hwn yn raddol. I yrru'r gwaith hwn yn ei flaen, credaf fod y Mesur arfaethedig yn cwmpasu'r posibilïadau yr ydych yn eu crybwyll.

